**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Dyma gofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 20fed Mehefin 2005 yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10.35 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Attridge (dirprwy) | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol), S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R D Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau wedi dod i law y Clerc nac yntau ar gyfer eu hystyried.

## 3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

i. Cafodd yr Awdurdod wybod am farwolaeth Mr Derek Woolley, cyn-Ddirprwy Brif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân Clwyd. Estynnwyd cydymdeimlad â'i deulu.

ii. Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd am farwolaeth Syr Kenneth Holland, un o gyn Brif Arolygwyr gydag Arolygiaeth Gwasanaethau Tân Ei Mawrhydi a oedd hefyd yn ewythr i'r Cynghorydd S C Jones. Cyfeiriodd y Cadeirydd at yrfa nodedig Syr Kenneth a chynnig cydymdeimlad yr Awdurdod â'r Cynghorydd Jones a'r teulu.

iii. Cafodd yr Awdurdod wybod gan y Cadeirydd fod y Cynghorydd S C Jones wedi cael ei tharo'n wael tra roedd ar wyliau yn Ffrainc. Ar y pryd roedd yn dal yn yr ysbyty yn Ffrainc ac anfonwyd dymuniadau gorau'r Awdurdod am wellhad llwyr a buan iddi.

iv. Llongyfarchwyd Adam Frobisher, mab y Cynghorydd S Frobisher, a oedd wedi derbyn Gwobr Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn Cymru 2005. Dyfarnwyd y wobr iddo fel cydnabyddiaeth am y gwahanol weithgareddau gwirfoddol roedd yn ymwneud a hwy, yn eu plith roedd cangen Prestatyn o Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc. Cafodd y teulu Frobisher eu llongyfarch hefyd am gael eu henwi yn Deulu Mwyaf Gofalgar Prydain 2004 gan gylchgrawn "House Beautiful"; roedd y wobr hon yn cydnabod eu gwaith yn eu cymuned.

v. Llongyfarchwyd y canlynol ar gael eu hethol i wahanol swyddi am y flwyddyn ddinesig 2005/06: Y Cynghorydd J A Smith, Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych; Y Cynghorydd D Barratt, Is-Gadeirydd Cyngor

Sir y Fflint; Y Cynghorydd W T Owen, Maer Caernarfon; Y Cynghorydd PC Evans YH, Dirprwy Faer Llandudno a'r Cynghorydd S Frobisher, Dirprwy Faer Prestatyn.

vi. Cyfarfodydd pwyllgorau i ddod: Gweithgor y Cynllun Integredig Rheoli Risg i gyfarfod am 10:30 fore Llun 25ain Gorffennaf 2005. Yn dilyn cyfarfod y Gweithgor, tua hanner dydd byddai'r Panel Gweithredol yn cynnal ei gyfarfod nesaf. Byddai'r cyfarfodydd hyn yn cael ei cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Gwahoddwyd holl aelodau'r Awdurdod i ymweld â'r Pencadlys newydd yn union wedi cyfarfod y Panel Gweithredol er mwyn iddynt gael gweld yr adeilad newydd a safle arfaethedig y Ganolfan Reoli i'r Tri Gwasanaeth. Ar 22ain Medi 2005, byddai'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad, Mrs Edwina Hart MBE AC, yn agor y Pencadlys newydd yn swyddogol. Byddai'r holl aelodau yn cael eu gwahodd i'r digwyddiad hwn. Roedd Seminar i Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, wedi ei drefnu ar gyfer 26ain Medi 2005 ac roedd y Gweinidog wedi derbyn gwahoddiad i siarad yno, roedd y lleoliad eto i'w gadarnhau ond yn y Canolbarth y byddai.

vii. Roedd cyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân ac Achub wedi ei drefnu ar gyfer dydd Llun 19eg Medi 2005 yn Llangefni, gyda'r cyfarfodydd dilynol yn Rhuthun ddydd Llun 19eg Rhagfyr 2005, yng Nghaernarfon ddydd Llun 20fed Mawrth 2006 ac yn Wrecsam ddydd Llun 19eg Mehefin 2006.

viii. Dymunwyd yn dda i'r Cynghorwyr M Griffith, J Vaughan a W E Jones a hefyd y Clerc, a oedd wedi dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar.

## 4) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod y Pwyllgor Gwerth Gorau a gynhaliwyd ar 10fed Mawrth 2005
ii. Cyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 21ain Mawrth 2005

***<u>Penderfynwyd</u>: - cymeradwyo'r ddwy set o gofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

iii. Cyfarfod Arbennig o'r Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 7fed Mawrth 2005
iv. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 25ain Ebrill 2005

## 5) Materion yn Codi

Roedd y materion canlynol yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Cyfarfod y Pwyllgor Gwerth Gorau 10fed Mawrth 2005** – Dywedodd y Cynghorydd Margaret Griffith ei bod wedi ymddiheuro am beidio â bod yn bresennol ond nid oedd hyn wedi ei adlewyrchu yn y cofnodion a gyflwynwyd.

**Cyfarfod yr Awdurdod Tân 21ain Mawrth 2005,**
**Tud. 3, Materion yn Codi, ymweliad y Cadeirydd ag awdurdodau tân ac achub cyfagos a thros y ffin:** Cafodd yr aelodau wybod bod y trefniadau bellach mewn lle yn dilyn penodi Prif Swyddog Tân newydd i gynrychiolwyr o Awdurdod Tân ac Achub Swydd Amwythig ymweld â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Roedd yr ymweliad wedi ei drefnu ar gyfer 30ain Medi 2005. Roedd trefniadau hefyd ar y gweill i drefnu ymweliad tebyg ar gyfer swyddogion o Ogledd Cymru i Wasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaer.

**Tud. 4 – paragraff olaf yr eitem ar Faterion yn Codi:** Roedd y Cynghorydd W J Chorlton o'r farn nad oedd geiriad y paragraff hwn yn cyfleu'n glir y mater yr oedd wedi ceisio ei godi yn y cyfarfod hwnnw. Er y dylai cywirdeb y cofnod fod wedi cael ei drin dan yr eitem fusnes flaenorol, gofynnodd y Cadeirydd am newid y cofnod er mwyn eglurder i:

"Cyfeiriodd y Cynghorydd W J Chorlton at alwad ffôn a gafodd gan y Clerc yn dilyn pwynt a gododd yn y Panel Gweithredol ar 7 Mawrth. Nid oedd ei sylwadau wedi eu bwriadu i fod yn amharchus ond fel hynny y dehonglodd y Prif Swyddog Tân hwy, ac fe ymddiheurodd am hynny. Cafodd y Cynghorydd Chorlton wybod gan y Clerc a'r Cadeirydd na allai godi mater ynghylch busnes cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 7fed Mawrth 2005 yn y cyfarfod presennol gan nad oedd cofnodion y cyfarfod hwnnw wedi cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo nac er gwybodaeth."

**Tud. 11 a 12, Diffodd Tanau ar y môr neu dan y môr:** Holodd y Cynghorydd W J Chorlton a oedd rhagor o wybodaeth wedi'i dderbyn ynghylch yswiriant yr Awdurdod ar gyfer staff oedd yn cyflawni'r dyletswyddau hyn. Roedd y Prif Swyddog Tân o'r farn fod yr aelodau wedi bod yn fodlon â'r wybodaeth a dderbyniasant ynghylch y mater yn y cyfarfod blaenorol, ac nid oedd yn ymwybodol bod gofyn am ragor o wybodaeth. Hyd y gwyddai, roedd yr Awdurdod yn darparu'r un lefel o yswiriant ar gyfer staff oedd yn diffodd tanau ar y môr ag awdurdodau eraill oedd yn darparu gwasanaethau tebyg. Roedd lefel yr yswiriant yn gymaint â'r lefel a ddarperid i staff oedd yn cyflawni dyletswyddau gorfodol eraill. Mewn ymateb i geisiadau gan yr aelodau, gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion gyflwyno adroddiad ar y mater i gyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Medi. Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> - y dylid cyflwyno adroddiad i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Medi 2005 yn manylu ar lefel yr yswiriant a ddarperid gan***

***Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i'w staff oedd yn cyflawni dyletswyddau diffodd tân ar y môr neu dan y môr o'i gymharu â'r yswiriant a ddarperid gan awdurdodau tân ac achub eraill i'w staff am gyflawni dyletswyddau tebyg***

Holodd y Cynghorydd D Clayton a oedd yr Awdurdod wedi derbyn unrhyw ymateb gan Lywodraeth y Cynulliad i'r sylwadau roedd wedi eu gwneud i gyflymu'r gorchmynion gofynnol dan "Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004". Cadarnhaodd y Clerc fod Llywodraeth y Cynulliad wedi cydnabod derbyn sylwadau'r Awdurdod, ond hyd yn hyn nid oedd unrhyw ddeddfwriaeth newydd wedi'u cyflwyno. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau ei fod wedi codi'r mater gyda'r Gweinidog, ac roedd hi'n cydymdeimlo â theimladau'r Awdurdod ynghylch yr oedi wrth gyflwyno deddfwriaeth.

**6) Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn gryno i'r aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau a fynychodd yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod Tân ac Achub ar 21ain Mawrth 2005. Yna, aeth yn ei flaen i fanylu ar y digwyddiadau a'r gweithgareddau oedd yn ei adroddiad gan ateb cwestiynau'r aelodau ynghylch gwahanol agweddau ar yr wybodaeth gyflwynwyd. I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd P C Evans am y rheswm pam nad oedd yr aelodau wedi cael gwybod am seremonïau agor swyddogol y Swyddfeydd Diogelwch yng Nghonwy a Sir y Fflint, dywedodd y Cadeirydd y penderfynwyd peidio â gwahodd yr aelodau i'r seremonïau oherwydd prinder lle. Roedd y Cynghorydd Evans yn derbyn na fyddai wedi bod yn ymarferol gwahodd yr aelodau i'r seremonïau ond roedd o'r farn y dylai'r aelodau fod wedi cael gwybod eu bod yn cael eu cynnal. Holodd y Cynghorydd W J Chorlton ynghylch digwyddiad yr oedd gan Orsaf Dân Caergybi ran ynddo mewn perthynas ag Wythnos Diogelwch y Plant, dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon mai un o fentrau Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) oedd Wythnos Diogelwch y Plant gyda'r timau Diogelwch Tân Cymunedol lleol yn cymryd rhan ynddi. Roedd rhai o'r aelodau'n bryderus fod nifer o ddigwyddiadau eraill wedi eu cynnal a hwythau heb gael gwybod amdanynt. Roedd aelodau eraill yn bryderus eu bod yn dal heb dderbyn gwahoddiad i ymweld â'u gorsaf dân leol a chael cyfle i gyfathrebu â'u gorsafoedd lleol, er eu bod wedi gwasanaethu ar yr Awdurdod ers o leiaf 12 mis. Gofynnodd y Cadeirydd am adolygu'r polisi ar gyfer rhoi gwybod i aelodau lleol am wahanol ddigwyddiadau, er mwyn i'r aelodau gael gwybod am bob digwyddiad oedd yn cael ei gynnal yn eu hardaloedd lle byddai'r Gwasanaeth yn bresennol. Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd fod brwdfrydedd ac ymroddiad y staff yn y ddwy Swyddfa Ddiogelwch yn y nod o wella diogelwch y cyhoedd wedi gwneud cryn argraff ar y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio. Gofynnodd i'r cofnodion gynnwys cofnod o'i ddiolch i'r holl staff oedd yn gysylltiedig â'r ddwy seremoni am roi delwedd mor gadarnhaol o'r Gwasanaeth a'r Awdurdod yng Ngogledd Cymru.

Diolchodd y Cynghorydd N S Colbourne i'r Swyddogion am drefnu'r ymweliad â Chanolfan Hyfforddi Ryngwladol Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerhirfryn yn Chorley. Roedd o'r farn i'r ymweliad fod yn brofiad gwerth chweil i bawb a fynychodd.

O ran cyfarfod o Fwrdd Rhaglen Gogledd Cymru sef y pwyllgor oedd yn goruchwylio'r cynnig i gyd-leoli ystafelloedd rheoli'r tri gwasanaeth brys yng Ngogledd Cymru, dywedodd y Cadeirydd fod achos busnes wrthi'n cael ei lunio. Byddai adroddiad cynhwysfawr yn cynnwys yr achos busnes yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi ar gyfer ystyriaeth yr aelodau.

I ateb cwestiwn gan y Cynghorydd C Shone, dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau fod cynnig Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i ymestyn aelodaeth Fforwm Gwasanaethau Tân Cymru wedi cael ei wrthod yng nghyfarfod y Fforwm ar 18fed Mai 2005. Er gwybodaeth, darllenodd y Cadeirydd y darn perthnasol o gofnodion cyfarfod y Fforwm. Dywedodd y Cadeirydd ei fod bellach o'r farn mai'r ffordd fwyaf priodol o fynd â'r mater yn ei flaen fyddai ystyried y cynigion a gyflwynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei adroddiad a oedd i gael ei drafod ymhellach ymlaen ar agenda'r cyfarfod presennol. Byddai pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru yn trafod y cynigion hyn maes o law. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i. nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad;***
- ***ii. bod polisi'r Awdurdod ar hysbysu'r aelodau am ddigwyddiadau lle byddai'r Gwasanaeth yn bresennol yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod aelodau lleol yn cael gwybod fel mater o drefn am ddigwyddiadau o bwys yn eu siroedd lle byddai'r Gwasanaeth yn cymryd rhan neu'n bresennol; a***
- ***iii. bod adroddiad cynhwysfawr ar yr ystafell reoli ar y cyd i'r gwasanaethau brys yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys yr achos busnes, yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi ar gyfer ei ystyried***

## 7) Y Defnydd o Adnoddau – Y Negeseuon Allweddol o'n Hadolygiad

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Mr David Jones, Rheolwr Archwiliadau, a Mr Mark Roberts, Prif Archwilydd, o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno canfyddiadau'r "Adolygiad o'r Defnydd o Adnoddau" a wnaethant yn ddiweddar. Rhoddodd Mr Jones wybod i'r aelodau fod yr adolygiad yn rhan o'r gwaith roedd disgwyl i'r Swyddfa ei wneud dan y Côd Ymarfer Archwilio. Ar ffurf cyflwyniad, atgoffwyd yr Awdurdod gan Mr Roberts am y meysydd oedd wedi cael eu cynnwys yng Nghynllun Archwilio 2004/05 a'r meysydd oedd yn berthnasol i'r agenda roedd yr Awdurdod wrthi'n ei dilyn: sef yr agenda foderneiddio, y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Aeth yn ei flaen i

esbonio mai amcanion yr archwiliad oedd adnabod y cynnydd a wnaed wrth lunio ymateb i'r prif feysydd risg a nodwyd dan y drefn cynllunio archwiliad, meysydd lle ceir arfer dda, yr hyn sy'n rhwystro newid ac unrhyw waith arall oedd ei angen.  Y modd yr aethpwyd ati i ymgymryd â'r archwiliad oedd edrych ar ddogfennaeth a thrafod â swyddogion allweddol.

Y tair neges allweddol a ddaeth o'r adolygiad oedd:  yr elfennau cadarnhaol, y themâu cyffredin, a'r meysydd lle roedd angen am ragor o waith.  Yna, ymhelaethodd Mr Roberts ar y tair prif neges:

**Yr Elfennau Cadarnhaol**:  roedd gan yr Awdurdod nodau ac amcanion corfforaethol clir; roedd eisoes wedi cyflwyno fframwaith newydd i ddatblygu polisïau; roedd yn dangos tystiolaeth o weithio'n effeithiol mewn partneriaethau; roedd strategaethau wrthi'n cael eu datblygu; roedd nifer o feysydd risg wedi cael eu hadnabod ac roedd y gwaith o ailstrwythuro'r drefniadaeth reoli wedi ei orffen â'r Tîm Rheoli newydd mewn lle.

**Y Themâu Cyffredin:**  roedd y rhain yn cael eu pennu gan ofynion cenedlaethol a lleol ac yn cynnwys datblygu strategaethau; rheoli risg; gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu, megis y prosiect Ystafell Reoli ar y cyd,  y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.  Pwysleisiodd Mr Roberts bwysigrwydd datblygu strategaethau gan ei fod yn darparu cyswllt rhwng yr amcanion corfforaethol a'r cynlluniau gweithredu, ac yn rhoi ffocws clir i'r Awdurdod. Roedd datblygu strategaethau hefyd yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella oedd i fod i gael ei chyflwyno ar gyfer yr awdurdodau tân ac Achub yn Ebrill 2006.  Ar y pryd, roedd gan yr Awdurdod Strategaeth Rheoli Risg drafft mewn lle.  Roedd Rheoli Risg yn effeithiol yn elfen allweddol o'r Fframwaith Cenedlaethol a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a byddai'n offeryn gwerthfawr i gynorthwyo i gael gwelliant parhaus a chyflwyno gwasanaethau o safon uchel. Byddai hefyd yn gymorth i ganolbwyntio ar yr hyn yr oedd angen ei wneud er mwyn cyflawni'r amcanion benodwyd.

Roedd y Cynllun Integredig Rheoli Risg wedi adnabod nifer o risgiau a threfniadau yn ymwneud ag Adnoddau Dynol.  O ganlyniad, ac er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn, roedd strategaeth Adnoddau Dynol wrthi'n cael ei datblygu.  Hefyd ar y gweill roedd Cynllun Rheoli Asedau a fyddai o gymorth i asesu risgiau yn ymwneud â dal asedau.  Roedd yr Awdurdod wedi cydnabod ers tro y manteision o Weithio mewn Partneriaeth, sef un arall o elfennau allweddol y Fframwaith Cenedlaethol a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.  Roedd hefyd wedi cydnabod pwysigrwydd llunio dogfen strategaeth ar Weithio mewn Partneriaeth ac y gallai partneriaethau fod yn gymorth i fynd i'r afael â risgiau a chyfrannu tuag at gyflawni amcanion strategol yr Awdurdod mewn ffordd economaidd ac effeithlon.  Roedd gan y Gwasanaeth berthynas gydweithrediadol ers tro gyda'r gwasanaethau tân ac achub eraill yng Nghymru.  Hefyd, roedd ganddo nifer o bartneriaethau lleol mewn lle, ac roedd

trefniadau ar gyfer rhagor o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth yn cael eu hymchwilio.

**Meysydd eraill lle roedd angen rhagor o waith:** Yna, i gloi, rhoddodd Mr David Jones grynodeb o'r canfyddiadau allweddol a rhoi gwybod i'r aelodau mai'r angen bellach fyddai cwblhau datblygu'r Dogfennau Strategaeth, parhau i ddatblygu'r broses Adnabod Risg a datblygu Cynlluniau Gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

I ateb gwahanol gwestiynau, roedd Mr Jones a Mr Roberts yn pwysleisio na ddylid edrych ar yr un o'r materion hyn ar eu pennau hunain, roedd angen i'r Awdurdod ystyried y darlun ehangach gan fod yr holl faterion yn rhyngberthynol. Roedd Adnoddau Dynol yn enghraifft o faes arbennig o anodd i ddatblygu strategaeth arno, gan y byddai angen i'r strategaeth gysoni materion lleol a chenedlaethol o'i mewn. Cafodd yr aelodau wybod bod Swyddfa Archwilio Cymru yn hyderus y byddai'r Strategaeth Rheoli Risg, a oedd i gael blaenoriaeth gan ei bod yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r meysydd, ar gael i'w chyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi ar gyfer ei hystyried.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Jones a Mr Roberts am fynychu, am gyflwyno eu canfyddiadau ac am ateb cwestiynau'r aelodau. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd iddynt***

## 8) Defnyddio'r Tanwariant yng Nghyllideb 2004/05

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i roi'r diweddaraf i'r aelodau am gyfanswm tanwariant yr Awdurdod yn y flwyddyn ariannol 2004/05. Diolchodd i'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Gwasanaethau Corfforaethol), Sandra Forrest a Claire Davies, y Rheolwr Cyllid, am eu cymorth yn llunio'r adroddiad. Atgoffwyd yr aelodau gan y Trysorydd ei fod wedi gofyn i'r Awdurdod, yn ei gyfarfod blaenorol, ohirio gwneud penderfyniad ar sut i ddyrannu gweddill y tanwariant gan aros penderfyniad ar fater a allai effeithio ar Raglen Gyfalaf yr Awdurdod yn 2005/06. Wedi rhagor o ymchwil, roedd y mater hwnnw wedi cael ei ddatrys heb unrhyw effaith ar y Rhaglen Gyfalaf. Cyn manylu ar yr holl bwyntiau oedd yn yr adroddiad, rhoddodd y Trysorydd wybod i'r aelodau fod y tanwariant terfynol yn uwch nag a adroddwyd yn flaenorol. Roedd hyn yn bennaf oherwydd y nifer is o ddigwyddiadau ar yr ochr weithredol yn ystod rhan olaf y flwyddyn nag a ragwelwyd. Cyfeiriodd y Trysorydd yn fanwl at bob maes o'r tanwariant lle roedd gwahaniaeth mawr rhwng y ffigurau adroddwyd i'r Awdurdod yn flaenorol, ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr Awdurdod fod adolygiad o'r Uned Hyfforddi Diogelwch Tân Masnachol wrthi'n cael ei gynnal. Rhagwelid y byddai canlyniadau'r adolygiad ar gael i'w cyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf ym mis Medi, ond roedd y Swyddogion o'r farn mai doeth fyddai dileu dyled yr Uned ar hyn o bryd tra roedd arian ar gael. Nid oedd y ffaith fod yr adolygiad

yn cael ei gynnal a bod yr Uned yn rhedeg ar golled yn golygu o reidrwydd mai'r argymhelliad fyddai ei diddymu.

Dywedodd y Cynghorydd W J Chorlton wrth yr Awdurdod nad oedd safbwynt ei awdurdod cyfansoddol ef wedi newid ers y cyfarfod diwethaf, sef y dylai'r arian oedd yn weddill gael ei ddychwelyd i'r awdurdodau cyfansoddol. Ymatebodd y Trysorydd trwy ddweud fod gan bob awdurdod unigol hawl i'w farn ond y drafferth gyda gosod cyllideb i wasanaeth brys oedd union natur y gwasanaeth a ddarperid a'r ffaith mai'r unig wybodaeth y gellid seilio'r costau a ragwelid oedd nifer a mathau'r digwyddiadau a fu yn y blynyddoedd blaenorol. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, nid oedd nifer y digwyddiadau wedi cyrraedd y lefelau a ragwelwyd. Roedd y Prif Swyddog Tân yn cytuno â safbwynt y Trysorydd. Roedd yr ystadegau diwedd blwyddyn wedi dangos y bu 27% o ostyngiad yn nifer y tanau a gofnodwyd yn ystod 2004/05. O safbwynt diogelwch roedd y ffigurau hyn yn galonogol iawn ond roeddent hefyd yn effeithio ar y gyllideb yn gyffredinol trwy gynyddu swm y tanwariant: roedd llai o ddigwyddiadau yn golygu bod llai wedi ei wario ar gyflogau'r diffoddwyr tân rhan amser ac ar gostau trafnidiaeth. Roedd nifer o'r aelodau'n cyd-fynd â safbwyntiau'r Trysorydd a'r Prif Swyddog Tân sef bod y tanwariant yn gyfle delfrydol i'r Awdurdod neilltuo'r arian fel darpariaethau ar gyfer prosiectau a mentrau yn y dyfodol megis Prosiect yr Ystafell Reoli. Gan mai busnes yr Awdurdod oedd darparu gwasanaeth cyhoeddus oedd yn uchel o ran risg ac yn un lle roedd yn anodd iawn rhagweld y lefelau angenrheidiol a fyddid eu hangen, efallai na fyddai'r Awdurdod yn canfod ei hun mewn sefyllfa mor ffodus yn y dyfodol. Pan bleidleisiwyd, roedd pob aelod, heblaw am un, o blaid yr argymhellion fel yr oeddent yn yr adroddiad, ataliodd yr aelod arall ei bleidlais. Felly:

***Penderfynwyd:***

- ***i.*** ***fod y golled oedd wedi cronni o £39,986 erbyn 31 Mawrth 2005 ar gyfer yr Uned Diogelwch Tân Masnachol yn cael ei dileu o fewn cyfrifon 2004/05;***
- ***ii.*** ***bod £190,000 o Ddarpariaeth ar gyfer Gwisgoedd yn cael ei chreu o danwariant 2004-2005;***
- ***iii.*** ***bod £100,000 o'r tanwariant yn cael ei ddefnyddio i greu Darpariaeth ar gyfer Prosiect yr Ystafell Reoli; a***
- ***iv.*** ***defnyddio'r tanwariant oedd yn weddill, sef £373,186 i ariannu gwariant cyfalaf ar gyfer 2004-2005***

Gadawodd y Cynghorydd P C Evans y cyfarfod yn y fan hon.

## 9) Datganiad o Gyfrifon

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) a'r Datganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2005. Esboniodd fod y Datganiad o Gyfrifon yn cael ei gyflwyno i'r aelodau ar

gyfer eu cymeradwyaeth dan ofynion y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio1996. Hon fyddai'r flwyddyn olaf y byddai Rheoliadau 1996 yn berthnasol iddi gan y byddai pob Datganiad yn ymwneud â'r cyfnod o 1af Ebrill 2005 yn agored i Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2005. Roedd y cyfrifon wedi cael eu cyflwyno i'r Archwilydd Dosbarth a fyddai'n cyhoeddi ei farn maes o law. Petai'r Archwilydd yn codi unrhyw faterion o bwys, fe fyddent yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Awdurdod, fel arall byddai copi o'r Datganiad terfynol o Gyfrifon yn cael eu hanfon i'r aelodau unwaith y byddai'r Archwilydd wedi cyhoeddi ei adroddiad. Gwahoddodd y Trysorydd gwestiynau gan yr aelodau ar y Cyfrifon a hysbysodd fod fersiwn Gymraeg o'r adroddiad a'r Datganiad bellach ar gael i'w dosbarthu. Felly:

***<u>Penderfynwyd:</u> - cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2005***

**10) Crynodeb o Weithgarwch Archwilio Mewnol ar gyfer 2004/05 a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2005/06**

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn rhoi crynodeb o'r gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2004/05 a'r Cynllun Archwilio Mewnol drafft ar gyfer 2005/06. Cyn manylu ar gynnwys ei adroddiad, esboniodd y Trysorydd fod yr Archwilydd Mewnol wedi darparu 3 diwrnod ychwanegol o weithgarwch archwilio mewnol o'i gymharu â'r hyn oedd wedi eu cynnwys yn y cynllun a'r gyllideb wreiddiol.

Dywedodd y Cynghorydd W J Chorlton wrth yr aelodau ei fod wedi cael gwybod, gan yr hyn alwodd yn ffynhonnell ddibynadwy, fod y Gwasanaeth wedi gwario £200,000 ar system deleffoni newydd nad oedd yn cael ei defnyddio. Ychwanegodd fod yr un ffynhonnell wedi rhoi gwybod iddo fod nifer fawr o gyfrifiaduron yn cael eu cadw mewn garej ar un o safleoedd y Gwasanaeth Tân ac Achub, ac nad oeddynt yn cael eu defnyddio.

Atebodd y Prif Swyddog Tân y bu problemau gyda'r System Deleffoni IP a osodwyd mewn rhannau o ardal y Gwasanaeth ond ei bod hi yn cael ei defnyddio. Roedd yn credu bod angen mwy o eglurhad am y cyfeiriad at nifer fawr o gyfrifiaduron mewn garej ond efallai mai at y gwaith parhaus o ddatblygu'r defnydd o gyfrifiaduron "tabled" y cyfeirid. Gofynnodd yr aelodau am adroddiad i gyfarfod y Panel Gweithredol ar 25ain Gorffennaf 2005.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i. nodi'r crynodeb o'r gwaith Archwilio Mewnol ar gyfer 2004/05 a chymeradwyo'r cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2005/06; a***
- ***ii) bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Panel Gweithredol ar 25ain Gorffennaf yn ymdrin â'r materion a godwyd gan y Cynghorydd Chorlton.***

## 11) Rheoli'r Trysorlys

Cyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad trysoryddol blynyddol (a ddosbarthwyd o flaen llaw). Esboniodd fod cyflwyno'r adroddiad, oedd yn ymorol am weithgarwch y trysorlys ar gyfer 2004/05, yn ofynnol dan weithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Cafodd yr aelodau wybod bod raid i'r Awdurdod osod nifer o ddangosyddion fel rhan o broses gosod y gyllideb ac er mwyn cydymffurfio â gofynion y Côd Darbodus. Calonogol oedd adrodd fod yr Awdurdod wedi perfformio ychydig yn well ar ei strategaeth fenthyca nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol a'i fod wedi gweithredu o fewn y ffiniau gosodedig. Felly:

***Penderfynwyd:** - nodi'r adroddiad ar weithgarwch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2004/05*

## 12) Newid i'r Cynllun Dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn ceisio cael yr Awdurdod i gytuno ar newid i'r Cynllun Dirprwyaethau i'r Prif Swyddog Tân, o ganlyniad i'r gweithdrefnau newydd ar gyfer disgyblu, cwynion a galluogrwydd a fabwysiadwyd eisoes gan yr Awdurdod. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Clerc fod yr Awdurdod wedi penderfynu newid Cylch Gwaith y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 21ain Mawrth 2005 er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn ei gyfrifoldebau yn dilyn cyflwyno deddfwriaeth newydd a mabwysiadu'r Gweithdrefnau newydd. Felly, er cysondeb, roedd angen newid geiriad yr eithriad o'r ddirprwyaeth oedd yn ymwneud â materion personél yng Nghynllun Dirprwyaethau'r Awdurdod i'r Prif Swyddog Tân er mwyn adlewyrchu'r gweithdrefnau newydd oedd nawr mewn grym. Felly:

***Penderfynwyd:** - bod yr eithriad perthnasol o'r ddirprwyaeth oedd yn ymwneud â materion personél yn cael ei newid i ddarllen: "bod yn banel apêl dan y gweithdrefnau disgyblu, cwyn a galluogrwydd lle rhoddir y swyddogaeth honno i'r awdurdod tân"*

## 13) Y berthynas rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i geisio cael barn yr aelodau am y berthynas rhwng yr Awdurdod Tân ac Achub a'r Gymdeithas yn y dyfodol. Esboniodd fod papur trafod a luniwyd gan Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr y Gymdeithas, ynghlwm wrth yr adroddiad ar gyfer ystyriaeth yr aelodau. Byddai'r papur trafod yn cael ei drafod maes o law gan bob awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Ar gais y Cadeirydd:

***Penderfynwyd:** - gohirio trafod yr adroddiad ar y berthynas rhwng y Gymdeithas a'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a dirprwyo y dylai'r Panel Gweithredol dderbyn a thrafod yr adroddiad a'r papur trafod ar ran yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 25ain Gorffennaf 2005*

**14) Y trefniadau ar gyfer ymdrin â Gwerth Gorau yn y dyfodol**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) yn gofyn i'r Awdurdod ystyried argymhelliad gan y Pwyllgor Gwerth Gorau ac a gefnogwyd gan y Panel Gweithredol mai'r Panel Gweithredol ddylai ymgymryd â'r cyfrifoldebau o ymdrin â materion Gwerth Gorau yn y dyfodol. Esboniodd y Clerc fod yr wybodaeth gefndirol am yr argymhelliad wedi ei chynnwys yn yr adroddiad, a phetai'r Awdurdod yn cymeradwyo trosglwyddo'r pwerau y byddai angen cymeradwyo newidiadau o'r herwydd i Gylch Gwaith y Panel Gweithredol hefyd. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

i. ***y dylid dirwyn y Pwyllgor Gwerth Gorau i ben a throsglwyddo ei gyfrifoldebau i'r Panel Gweithredol; ac***
ii. ***y dylid newid Cylch Gwaith y Panel trwy ychwanegu fel paragraff 2.4:***

***"Hefyd, bydd y Panel yn cyflawni swyddogaethau'r awdurdod dan adrannau 3 i 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 gan gynnwys:***

- ***(i) goruchwylio a monitro cydymffurfiad yr awdurdod â'r gofynion gwerth gorau sydd yn Neddf 1999;***
- ***(ii) goruchwylio a chymeradwyo'r adolygiadau gwerth gorau;***
- ***(iii) goruchwylio a chymeradwyo cynnwys y cynllun perfformiad gwerth gorau;***
- ***(iv) monitro perfformiad o'i gymharu â'r dangosyddion perfformiad gwerth gorau a dangosyddion perfformiad lleol."***

**15) Cwynion a Llythyrau o Werthfawrogiad**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda golwg i hysbysu a rhoi'r diweddaraf i'r aelodau am nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd gan y cyhoedd. Esboniodd fod yr adroddiad wedi ei lunio mewn modd i ddiogelu cyfrinachedd y bobl dan sylw. Cafodd yr aelodau wybod gan y Cadeirydd fod y Swyddogion, ar ei gais ef, wedi cynnwys mwy o wybodaeth am y llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd yn yr adroddiad eleni. Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi nifer y cwynion a'r llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd***

Gadawodd y Cynghorydd W J Chorlton y cyfarfod yn y fan hon.

**16) "Er Gwybodaeth"**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân y rhifyn diweddaraf o'r cylchgrawn 'Er Gwybodaeth' i'r aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i Bethan Davies, Swyddog y

Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus y Gwasanaeth, am ei gwaith yn cynhyrchu cylchlythyr proffesiynol tu hwnt.  Gofynnodd y Cynghorydd E C George i fanylion y staff Diogelwch Tân Cymunedol oedd yn gweithio o swyddfeydd diogelwch y siroedd gael eu dosbarthu i'r aelodau lleol o'r Awdurdod Tân ac Achub.  Felly:

***<u>Penderfynwyd</u>: - derbyn y cylchgrawn a fod manylion y staff diogelwch tân oedd yn gweithio o swyddfeydd diogelwch y siroedd yn cael eu dosbarthu i'r aelodau lleol o'r Awdurdod Tân ac Achub.***

**17) Materion Brys**

Ni chyflwynwyd unrhyw eitemau i'w hystyried.

**<u>RHAN II</u>**

Dim busnes.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25 y prynhawn.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** <u>T Roberts</u> **Dyddiedig:** <u>19 Medi, 2005</u>